yn rhoi cartref i fyd natur

Cnau ar y coed

..yn ystod yr hydref a'r gaeaf

Yn ystod y misoedd oer, mae creaduriaid gwyllt yn chwilio am gnau, aeron a hadau ar y coed. **Alli di ddod o hyd iddyn nhw hefyd?**

Aeron coch

Mae'r goeden eisiau i adar weld ei haeron, er mwyn iddyn nhw eu bwyta a'u gwasgaru yn eu pŵ.

Lliwiau aeron eraill rwyt ti wedi'u gweld

Hadau hofrennydd

Mae gan yr hadau hyn 'adenydd' bach a gall y gwynt eu cario yn bell i ffwrdd.

Sawl cam oddi wrth foncyff y goeden yw'r hedyn pellaf?

Cynaeafu cnau

Alli di ddod o hyd i rai wedi hanner eu bwyta?

Wedi lapio

Cer ati i ddod o hyd i gneuen neu hedyn mewn plisgyn. **A yw'n galed neu'n bigog?**

Mochyn coed

Cer â'r mochyn coed adref gyda thi. **A yw'n agor ar ôl ychydig o ddyddiau?**

Pa goeden yw hi?

Yn y gaeaf, does dim dail ar y coed. Ond, yn aml, mae modd dod o hyd i ddail ar y llawr a fydd yn dy helpu di i ganfod pa fath o goeden yw hi. **Gall rhai pobl adnabod coed dim ond drwy edrych ar eu blagur!**

Gweithgaredd

Anfona luniau o'r hyn rwyt ti wedi dod o hyd iddo atom ni.

Gweithgareddau Gwyllt!

www.rspb.org.uk/wildchallenge

Cofrestra i ennill gwobrau!

Mae RSPB yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr 207076, ac yn yr Alban SC037654. 382-1139-18-19. Aeron coch gan Mike Read, mes gan Chris O'Reilly, cneuen gastan gan Sue Kennedy, rhisgl coeden gan Michael Harvey a gwreiddiau coed gan Tony Hamblin (pob un yn rspb-images.com), hadau hofrennydd, mochyn coed, buwch goch gota, esgidiau glaw a phridd gan iStockphoto.com a chwyddwydr gan dreamstime.com